



## Eglurhad

Mae nifer o bartneriaethau bwyd yn enwebu grŵp bach o bobl sy'n mynd i fwrw ati yn frwd i symud y syniad o'r bartneriaeth yn ei flaen. Gellid galw'r grŵp hwn yn grŵp llywio, pwyllgor llywio, ysgrifenyddiaeth neu bwyllgor rheoli. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r grŵp llywio yn arwain ar ddatblygu'r bartneriaeth fwyd, y cynllun gweithredu a'r strategaeth fwyd, a gall y tasgau gynnwys:

- Gweithredu fel canolbwynt
- Cynnig fforwm ar gyfer trafod a dadlau
- Ysgogi rhanddeiliaid ehangach i ymgysylltu â'r broses o greu cynlluniau gweithredu a datblygu strategaeth
- Codi proffil y Bartneriaeth Fwyd a'r Cynllun Gweithredu
- Sefydlu a derbyn adroddiadau gan is-grwpiau ar themâu penodol e.e. tlodi bwyd, gwastraff, caffael
- Helpu i ddatblygu ffyrdd mwy effeithiol o gyflawni pethau
- Cynnal egni a brwdfrydedd

Mae'r rhaglen SFP yn mabwysiadu system fwyd gyfan ac yn gweithio ar draws sectorau sy'n anelu at ymgorffori'r ystod o wahanol safbwyntiau, materion a heriau sy'n wynebu pobl leol, sefydliadau a busnesau. Dylai'r grŵp llywio anelu at arwain y broses o ddatblygu'r strategaeth mewn ffordd sy'n adlewyrchu safbwyntiau a phrofiadau'r cymunedau y mae'n eu cynrychioli.

## Cyflwyniad

Bydd y canllaw **Gweithdy Grŵp Llywio** hwn yn canolbwyntio ar brosesau cyfranogol y gellir eu defnyddio i hwyluso'r broses o ddadansoddi a dilysu allbynnau arolygon a grwpiau ffocws a datblygu strategaeth fwyd ddrafft. Yn nifer o bartneriaethau bwyd y SFP, mae'r gwaith cynllunio strategol hwn yn arwain at sefydlu is-grwpiau neu weithgorau thematig sy'n canolbwyntio ar waith strategol ar wahân.

## Gwirio Nodau, Amcanion a Chamau Gweithredu'r Strategaeth Fwyd

Mae camau cynnar datblygu strategaeth fwyd yn aml yn cynnwys casglu ystod eang o ddata a gwybodaeth. Efallai y daw'r data hwnnw o ddigwyddiadau **arolygon bwyd, grwpiau ffocws bwyd, mapio system fwyd** neu drwy gynnal **archwiliad polisi bwyd**. Efallai y bydd **uwchgynhadledd fwyd** wedi'i chynnal hefyd lle bydd rhanddeiliaid o bob rhan o'r maes wedi dod at ei gilydd i ddechrau amlinellu gweledigaeth a rhai nodau posib. Yna daw'r gwaith sylweddol o droi hyn i gyd yn strategaeth. Ar ôl ymgynghori'n helaeth yn ystod y camau cynnar, mae'n bwysig bod rhanddeiliaid yn parhau i ymgysylltu a chael cyfleoedd i gyfrannu wrth i'r strategaeth ddechrau datblygu. Mae hyn yn arbennig o wir yn achos y rhanddeiliaid hynny sy'n rhan o'r grŵp llywio a'r is-grwpiau / gweithgorau.

Un ffordd o wneud hyn yw cynnal **Gweithdy Grŵp Llywio** lle mae nodau, amcanion a chamau gweithredu'r strategaeth fwyd sy'n dod i'r amlwg yn cael eu gwirio. Yn y bôn, mae'n fater o rannu'r cynnydd hyd yma a gwirio barn rhanddeiliaid amdani. Gallai'r un broses wirio ddigwydd o fewn pob is-grŵp o'r grŵp llywio e.e. is-grŵp caffael bwyd neu dlodi bwyd neu gyda grwpiau eraill o randdeiliaid e.e. grwpiau bwyd cymunedol.

### Beth i'w wneud:

- Argraffwch fersiynau mawr o nodau ac amcanion drafft y strategaeth.
- Argraffwch fersiynau mawr o'r camau gweithredu sy'n gysylltiedig â phob nod / amcan.
- Crëwch arddangosfa o'r strategaeth / cynllun gweithredu o amgylch yr ystafell.
- Efallai y byddwch am osod pob nod mewn rhan ar wahân o'r ystafell er mwyn i chi allu creu gweithfan lle bydd y nod / amcan hwnnw a chamau gweithredu yn cael eu trafod.
- Gwnewch yn siŵr ei bod yn glir pa gamau sydd wedi'u cynllunio i gyflawni pa amcanion a pha amcanion sy'n berthnasol i ba nodau.
- Gofynnwch i gyfranogwyr fynd o amgylch yr ystafell i bob gweithfan lle dylen nhw:
  - Ddarllen y Nod
  - Darllen yr Amcanion
  - Darllen y Camau Gweithredu sydd wedi'u hawgrymu.
- Gofynnwch i'r cyfranogwyr ystyried y camau gweithredu sydd wedi'u hawgrymu a phenderfynwch a yw pob cam yn BWYSIG IAWN, EITHAF PWYSIG, DDIM YN BWYSIG. Gellir defnyddio dotiau gludiog er mwyn i gyfranogwyr bleidleisio.
- Gofynnwch i gyfranogwyr ychwanegu sylwadau mewn adran DWEUD PAM i egluro eu pleidlais.
- Gwnewch yn siŵr bod lle ym mhob gweithfan ar gyfer camau gweithredu ychwanegol neu sylwadau ychwanegol.
- Caniatewch tua awr i gyfranogwyr ymgysylltu â'r holl weithfannau. Gofynnwch iddyn nhw ddechrau gyda'r weithfan sydd fwyaf perthnasol iddyn nhw a rhoi mwy o amser iddi, ond wedyn i ymweld â'r holl nodau os gallan nhw ac i bleidleisio.
- **Sylwer:** Os oes gennych hwyluswyr ychwanegol - mae'n ddefnyddiol cael hwylusydd ym mhob gweithfan a all arwain cyfranogwyr a gwrando ar drafodaethau.
- Ar y diwedd, gall hwyluswyr gweithfannau (os oes gennych rai) adrodd yn ôl grynodedb o bwyntiau allweddol eu gweithfan i'r grŵp cyfan.
- Gorffennwch y gweithdy drwy amlinellu'r camau nesaf – beth fyddwch chi'n ei wneud gyda'r wybodaeth rydych chi wedi'i chasglu yn y gweithdy / amserlen / cyfleoedd i gyfrannu yn y dyfodol.

Mae enghraifft o grid gweithfan i'w gweld ar ddiwedd y canllaw hwn.

## Gweithgorau Thematig

Yn ogystal â'r Grŵp Llywio, mae nifer o bartneriaethau bwyd yn ei chael hi'n ddefnyddiol sefydlu gweithgorau a allai ganolbwyntio, er enghraifft, ar un o faterion allweddol y SFP e.e. gweithgor Tlodi Bwyd, gweithgor Bwyd a Hinsawdd. Gall hyn fod yn arbennig o ddefnyddiol adeg datblygu'r cynllun gweithredu, lle mae angen trafodaethau manwl ar faterion allweddol. Fel arall, efallai y byddwch am ddefnyddio pob un o'ch nodau neu ganlyniadau lefel uchel fel sail ar gyfer grŵp.

Efallai y bydd yn ddefnyddiol i chi ddewis person i arwain neu gadeirydd ar gyfer pob grŵp neu thema. Gallai hon fod yn rôl â therfyn amser drwy gydol y broses o greu camau gweithredu. Eu rôl fyddai cynnal gweithgorau i greu camau gweithredu, ysgrifennu a dosbarthu camau

gweithredu drafft i'r holl gyfranogwyr ac arwain ar ddrafftio'r cynllun gweithredu ar gyfer y thema honno. Gweler ein canllaw **Creu Camau Gweithredu** am fwy o wybodaeth.

# ENGHRAIFFT O GRID GWEITHFAN

## Nod 1: Mynd i'r afael ag achosion sylfaenol tlodi bwyd

| AMCAN CYFFREDINOL: Mae gan bobl yn y ddinas incwm digonol mewn perthynas â gwariant eu haelwyd |             |               |                |              |
|--|-------------|---------------|----------------|--------------|
| CAM GWEITHREDU   | Pwysig iawn | Weddol bwysig | Ddim yn bwysig | DYWEDWCH PAM |
| Hyrwyddo'r Cyflog Byw ac annog cyflogwyr mwy, gan gynnwys rhai cenedlaethol, i gofrestru.      |             |               |                |              |
|  |             |               |                |              |
|  |             |               |                |              |
|  |             |               |                |              |